## Gweddi

**Darllen Llyfr y Galarnad 1:12, 16; 3:19, 22–28, 31–33**

A yw'n bosibl i chi sydd yn myned heibio fod mor ddifater?

Edrychwch a gwelwch; a oes gofid fel y gofid a osodwyd yn drwm arnaf, ac a ddygodd yr Arglwydd arnaf yn nydd ei lid angerddol?

Am hyn yr wylaf; mae fy llygaid yn llawn o ddagrau, ac y mae fy nghysurwr ymhell oddi wrthyf, un i adfer fy ysbryd mentrus. Cofia fy nhreialon a fy nghystuddiadau, y poen a'r blinder.

Nid yw cariad fy Arglwydd byth yn peidio, na'i drugareddau byth yn dod i ben, y maent yn newydd bob bore, a mawr yw dy ffyddlondeb.

'Yr Arglwydd yw fy nghyfran,' fel y dywed fy enaid, 'ac am hynny yr ymddiriedaf ynddo.' Y mae'r Arglwydd yn ddaionus i'r rhai sydd yn disgwyl amdano, ac i'r enaid sydd yn ei geisio.

Y mae'n dda ein bod ni yn disgwyl yn dawel am yr iachawdwriaeth sydd gan yr Arglwydd.

Y mae'n dda cario'r iau yn ein hieuenctid i eistedd ar ben ein hunain yn y tawelwch a osodir arnom.

Nid yw'r Arglwydd yn gwrthod am byth. Er ei fod yn peri gofid, fe rydd hefyd gydymdeimlad llwyr a llawn, am nad yw yn dymuno creu anawsterau na siomi neb, fe'n derbynnir i'w ofal cariadus.

Rhoddwn foliant felly i'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. Amen.